# Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014

**2014 dccc 3**

**2 Pŵer awdurdod lleol i ymafael mewn ceffylau**

(1) Caiff awdurdod lleol ymafael mewn ceffyl a chadw ceffyl sydd ar unrhyw brifforddd, neu mewn unrhyw fan cyhoeddus arall, yn ardal yr awdurdod lleol os oes gan yr awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod y ceffyl yno heb awdurdod cyfreithlon.

(2) Caiff awdurdod lleol ymafael mewn ceffyl a chadw ceffyl sydd ar unrhyw dir arall yn ardal yr awdurdod lleol os oes gan yr awdurdod lleol sail resymol i gredu—

(a) yn achos tir y mae'r awdurdod lleol yn feddiannydd arno, bod y ceffyl yno heb ganiatâd yr awdurdod lleol, neu

(b) yn achos tir arall yn ardal yr awdurdod lleol, bod y ceffyl yno heb ganiatâd meddiannydd y tir a bod y meddiannydd yn caniatáu i'r awdurdod lleol ymafael ynddo a'i gadw.